

Agenda – Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynhadledd drwy Zoom Rhys Morgan
Dyddiad: Dydd Llun, 7 Mawrth 2022 Clerc y Pwyllgor
Amser: 13.30 0300 200 6565
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

Rhag-gyfarfod preifat a chofrestru (13:00 – 13:30)

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau (13:30)

Dogfennau atodol:

2 Tlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd: Sesiwn dystiolaeth 3 (13:30–14:30) (Tudalennau 1 – 40)

Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Dr Donal Brown, New Economics Foundation

Dogfennau atodol:

Papur Ymchwil

Crynodeb gweithredol: Ariannu'r broses o ddatgarboneiddio tai yng Nghymru

Egwyl (14:30 – 14:45)

3 Tlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd: Sesiwn dystiolaeth 4 (14:45 – 16:00) (Tudalennau 41 – 57)

Ben Saltmarsh, National Energy Action

Jack Wilkinson-Dicks, yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni



Dogfennau atodol:

Ymateb i'r ymgynghoriad gan National Energy Action

Ymateb i'r ymgynghoriad gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

4 Papurau i'w nodi

(16:00)

Dogfennau atodol:

4.1 Gohebiaeth gan Sparkle: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar ofal plant a chyflogaeth rhieni

(Tudalennau 58 – 59)

Dogfennau atodol:

Gohebiaeth gan Sparkle: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar ofal plant a chyflogaeth rhieni

4.2 Gohebiaeth â'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Amcangyfrif Cyllideb Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer 2022–23

(Tudalennau 60 – 64)

Dogfennau atodol:

Gohebiaeth gyda'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ynghylch Amcangyfrif Cyllideb Comisiynydd Plant Cymru 2022–23

4.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol: Cyllideb Ddrafft 2022–23

(Tudalennau 65 – 68)

Dogfennau atodol:

Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol: Cyllideb Ddrafft 2022–23

4.4 Gohebiaeth gan Jane Dodds: Cynllun gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol – Hawliau cymunedol

(Tudalen 69)

Dogfennau atodol:

Gohebiaeth gan Jane Dodds: Cynllun gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol – Hawliau cymunedol (Saesneg yn unig)

4.5 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Rôl byrddau iechyd o ran diogelu menywod a phlant a allai fod yn profi cam-drin domestig

(Tudalen 70)

Dogfennau atodol:

Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Rôl byrddau iechyd o ran diogelu menywod a phlant a allai fod yn profi cam-drin domestig

4.6 Gohebiaeth â'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

(Tudalennau 71 – 79)

Dogfennau atodol:

Gohebiaeth â'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

4.7 Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd

(Tudalennau 80 – 83)

Dogfennau atodol:

Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd

4.8 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Cyllideb ddrafft 2022–23

(Tudalennau 84 – 89)

Dogfennau atodol:

Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Cyllideb ddrafft 2022–23

4.9 Gohebiaeth gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Recriwtio gyrwyr cerbydau nwyddau trwm

(Tudalennau 90 – 91)

Dogfennau atodol:

Gohebiaeth gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Recriwtio gyrwyr cerbydau nwyddau trwm

4.10 Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru: Ymateb i argymhellion y Pwyllgor ynghylch y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022–2023

(Tudalennau 92 – 98)

Dogfennau atodol:

Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru: Ymateb i argymhellion y Pwyllgor ynghylch y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022–2023

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (iv) ac (ix) i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod heddiw

(16:00)

Dogfennau atodol:

Egwyl (16:00 – 16:10)

6 Tlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd: trafod y dystiolaeth

(16:10–16:25)

Dogfennau atodol:

7 Blaenraglen waith: trafod papurau cwmpasu

(16:25–16:45)

(Tudalennau 99 – 109)

Dogfennau atodol:

Papur eglurhaol i'r flaenraglen waith

Papur cwmpasu: Cyfiawnder troseddol

8 Ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar ddiwygio Deddf Hawliau Dynol 1998: y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar

(16:45–17:00)

(Tudalennau 110 – 127)

Dogfennau atodol:

Ymateb Race Council Cymru i Ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar gynigion i ddiwygio Deddf Hawliau Dynol 1998

Tystiolaeth gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Llythyr ar y cyd gan Lywodraethau Cymru a'r Alban at yr Arglwydd Ganghellor

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

CARTREFI ADDAS AR GYFER Y DYFODOL: YR HER ÔL-OSOD

Sut y byddwn yn ariannu datgarboneiddio cartrefi yng Nghymru i gefnogi ein huchelgeisiau sero net?

Crynodeb Gweithredol



Trosolwg

Newid hinsawdd yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu cenedlaethau heddiw a'r dyfodol. Mae Cymru wedi gwneud addewidion sy'n arwain y byd er mwyn datgarboneiddio'i stoc dai yn sylweddol erbyn 2030 i gefnogi ein nod o fod yn sero net erbyn 2050.

Yn 2020 tynnais sylw at y ffaith y dylai datblygu pecyn symbylu economaidd sy'n arwain at greu swyddi ac sy'n cefnogi datgarboneiddio cartrefi fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru fel rhan o Adferiad Gwyrdd ar ôl y pandemig.¹ Bydd cynnal cynhadledd fyd-eang ar newid hinsawdd (COP 26) gan y DU yn ddiweddarach eleni'n gyfle i Lywodraeth y DU a Chymru fel ei gilydd ymrwymo i wneud hyn yn ffaith.

Mae trechu lefelau tlodi tanwydd sy'n parhau'n ystyfnig o uchel (12%) wrth galon nodau datgarboneiddio a chyfiawnder cymdeithasol Cymru, a rhaid gweld datgarboneiddio cartref fel rhan hanfodol o adferiad gwyrdd a chyfiawn ar ôl y pandemig yng Nghymru.

Mae tai yn faes sydd dan reolaeth Llywodraeth Cymru ac felly rhaid ei flaenoriaethu os yw'r Llywodraeth o ddifri ynghylch cyflawni'i thargedau newid hinsawdd sy'n rhwym yn y gyfraith.

Mae gan Gymru rai o'r tai hynaf a lleiaf effeithlon yng Ngorllewin Ewrop, felly bydd gweithredu i wella ansawdd y stoc hwn yn hanfodol. Mae datgarboneiddio'n her, ac yn gyfle i sefydliadau a chymunedau ledled Cymru, na all oedi mwy.

Ar hyn o bryd:

daw 10% o allyriadau
nwyon tŷ gwydr
Cymru o'r sector
breswyl



155,000 o dai mewn
tloidi tanwydd



mae tai gwael yn
cyfrannu at afiechyd



O'i reoli'n dda, gallai rhaglen ôl-osod fod yn newidiwr i economi Cymru gan helpu i:

cwrdd â nodau datgarboneiddio a thlodi
tanwydd



dileu tloidi tanwydd a lleihau costau ynni
diangen, gan arbed cyfanswm o £8.3 bn
mewn costau tanwydd erbyn 2040



creu arbediad cost i'r GIG - £4.4bn erbyn 2040



creu diwydiannau, sgiliau newydd a hyd at
26,500 o swyddi newydd, yn seiliedig ar gadwyni
cyflenwi lleol



cefnogi'r economi seiliol gyda gwariant lleol a
allai fod yn y miliynau



Bydd datgarboneiddio ein stoc dai ar y raddfa angenrheidiol yn gofyn am fuddsoddi sylweddol ochr yn ochr â mwy o gydlynw ar ran pob actor yn y system.

Mae angen i Lywodraeth Cymru arwain y blaen, ond ni fydd yn gallu cyllido'r rhaglen drwy grant am 100% o'r gost. Rhaid cydbwyso her cyllido'r newid hwn ar draws Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, cymdeithasau tai, awdurdodau lleol, landlordiaid a pherchnogion tai, gyda sawl sefydliad arall hefyd yn chwarae'i ran.

Canolbwynt ein gwaith fu amcangyfrif beth fyddai cyfanswm y cyllid angenrheidiol ar gyfer datgarboneiddio cartrefi yng Nghymru, gweld ble mae'r bylchau mewn cyllid ac awgrymu dulliau o fynd i'r afael â'r bylchau hyn.

Rydyn ni wedi gweithio'n agos gyda sawl sefydliad a rhanddeiliad, gan adeiladu ar waith blaenorol gan gynnwys adroddiad 'Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell',² gwaith Ysgol Bensaernïaeth Cymru (WSA),³ adroddiad Altair a gomisiynwyd gan Dai Cymunedol Cymru (CHC) a Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP) Llywodraeth Cymru sy'n profi dulliau o ddatgarboneiddio cartrefi yng Nghymru.

Canfyddiadau allweddol

Rhaid gweld buddsoddiad mewn ôl-osod er mwyn optimeiddio ar draws tai Cymru yn erbyn cefnlen o fanteision sylweddol i lesiant, arbedion costau gwasanaethau a thwf economaidd lleol.

Mae buddsoddi mewn miliynau o gartrefi yn rhoi'r potensial i gynhyrchu elw economaidd mawr yn ogystal â lleihau ein hallyriadau a lefelau o tlodi tanwydd.

- Byddai rhaglen ddatgarboneiddio tai Cymru yn creu £19.32bn mewn GDP ychwanegol,⁴ £3.54bn o elw treth net a 26,500 swydd newydd yng Nghymru erbyn 2030, gan helpu i liniaru effaith economaidd y pandemig diweddar a'r swyddi a gollwyd yn ei sgil.
- Byddai'r rhaglen hefyd yn arbed £8.3bn o ran biliau ynni ac yn creu £4.4bn o fanteision iechyd ac amgylcheddol⁵ erbyn 2040 gan helpu i roi mwy o arian yn ôl i economïau lleol ledled Cymru a lleihau'r straen ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig yn ystod y gaeaf.

Rydyn ni'n amcanu y bydd angen buddsoddiad o £14.75bn dros y ddegawd nesaf⁶ (hyd at 2030):

- **£5.5bn ar gyfer tai cymdeithasol,**
- **£4.8bn ar gyfer tai sy'n dioddef tlodi tanwydd, a**
- **£4.4bn ar gyfer cartrefi yn y sectorau a breswylir gan berchnogion ac a rentir yn breifat ('gallu talu') yn eu tro.**

Daliad / statws	Nifer o unedau	Buddsoddiad cyfartalog angenrheidiol i bob cartref*	Cyfanswm y buddsoddiad (bn)
Tai cymdeithasol	230,000 (~21,000 mewn tlodi tanwydd)	£24,000	£5.52
Tai sy'n dlawd o ran tanwydd	155,000 (~21,000 yn cael eu rhentu'n gymdeithasol)	£35,984	£4.82
Sector Rent Preifat (PRS)	180,000 (~36,000 mewn tlodi tanwydd)	£4,700	£0.67
Preswylwyr-berchnogion	924,000 (~99,000 mewn tlodi tanwydd)	£4,525	£3.73
Cyfanswm	-	-	£14.75

*Mae'r sectorau yn anelu at targedau EPC gwahanol felly mae'r buddsoddiad sydd angen ar gyfer tai cymdeithasol a tai sy'n dlawd o ran tanwydd yn uwch na'r sector rent preifat a'r preswylwyr-berchnogion.

Cyfanswm y buddsoddiad angenrheidiol gan lywodraeth yw tua £5.3bn dros 10 mlynedd.

O'r £14.75bn o fuddsoddiad fyddai'i angen i ddatgarboneiddio a gwella ansawdd cartrefi Cymru, dylai £3.6bn ddod o'r DU a £1.7bn o Lywodraeth Cymru, gyda 64% o'r holl fuddsoddiad yn dod o gyllid preifat, cwmnïau ynni neu wedi'i gyllido gan berchnogion eiddo.

Yn 2019 gwariodd cartrefi Cymru £1.02bn ar wneud gwaith adnewyddu cyffredinol, cynnal a chadw a gwelliannau (RMI), rhyw £723 i bob cartref ar gyfartaledd.⁷

Yn seiliedig ar gynlluniau buddsoddi a chynigion polisi presennol, mae bylchau mawr mewn cyllido ar gyfer tai cymdeithasol (£2.7bn) a thai sy'n dioddef tloidi tanwydd (£3.9bn) a rentir yn breifat ac a breswylir gan berchennog i gwrdd â lefel EPC 'A' erbyn 2030.

Mae cyllid yn allweddol, ond dim ond un rhan o'r bos ydyw

Ar ei ben ei hun nid yw'n gallu darparu newid ar y cyflymder a'r raddfa angenrheidiol. Er mwyn darparu rhaglen ôl-osod ar raddfa fawr a chyflawni manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ehangach, mae'n hanfodol fod buddsoddiad hirdymor a gynlluniwyd yn cael ei uno gyda pholisi ar sgiliau, hyfforddi, rheoleiddio, safonau a'r gadwyn gyflenwi.



Sophie Howe

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Bydd angen i ni symud y tu hwnt i weithio mewn corlan a sicrhau dull traws-Lywodraeth o ran cydweithio a darparu gyda chymdeithasau tai, awdurdodau lleol, darparwyr sgiliau a chyflenwyr oll yn sicrhau fod darpariaeth ar y cyd yn ganolog i'r dull hwnnw o weithredu. Mae strategaeth, ymgysylltiad, rheoleiddio, sgiliau, modelau busnes integredig a chymhellion ariannol oll yn hanfodol ar gyfer llwyddo.

Creu sgiliau a swyddi ar gyfer y dyfodol drwy fuddsoddi mewn rhaglen ôl-osod genedlaethol

Mae cyfleoedd sylweddol ar gyfer creu swyddi drwy gyfrwng rhaglen ôl-osod genedlaethol, ond rhaid cynllunio'r buddsoddiad ar gyfer y tymor hir er mwyn manteisio ar hyn.


Awgryma tystiolaeth y gallai diweithdra yng Nghymru ddyblu yn 2021, gan gyrraedd uchafswm o ryw 114,000 o bobl yn 2021, ac mae angen brys i fuddsoddi mewn creu swyddi a datblygu ffrydiau sgiliau mewn meysydd allweddol a all gefnogi ein targedau datgarboneiddio.




Gallai Rhaglen Ddatgarboneiddio Tai Cymru greu 26,500 o swyddi newydd yng Nghymru erbyn 2030, ond dim ond drwy warantu buddsoddiad hirdymor a gysylltir â blaenoriaethu prentisiaethau ac ail-sgilio'r gweithlu presennol, yn ogystal â gweithlu'r dyfodol, yn y crefftau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r bwch sgiliau y gellir sicrhau'r swyddi hyn ar gyfer pobl Cymru.

Gallai buddsoddi mewn prosiectau seilwaith allweddol mewn diwydiannau gwyrdd ac adfer natur greu yn ystod y ddwy flynedd nesaf:

**45,000 o swyddi
uniongyrchol**



**60,000 o swyddi
anuniongyrchol**



O'r rhain:

**4,260 o swyddi
inswleiddio
ôl-ffitio tai**



**2,810 o swyddi
adeiladu tai
cymdeithasol**



**2,730 o swyddi
mewn aseswyr
ynni ôl-ffitio**



Fodd bynnag, mae diffygion sgiliau sylweddol mewn inswleiddio, gwresogi ac ôl-ffitio. Gyda digon o alw a chydlyn yn cael ei greu trwy fuddsoddiad, gellid hwyluso symud i'r sector ôl-ffitio yn gymharol gyflym trwy hyfforddiant yn y gwaith, gan nad yw cymwysterau o reidrwydd yn rhagofyniad. Rhaid gwarantu piblinell tymor hir o brosiectau.

Cryfhau'r cysylltiadau rhwng tlodi tanwydd a datgarboneiddio

Er bod rhai tensiynau, mae'n bwysig mynd i'r afael â gefaill-heriau datgarboneiddio cartrefi a thlodi tanwydd drwy gyfrwng dull integredig, holistig.

Mae 155,000 o gartrefi yng Nghymru mewn tlodi tanwydd⁸ ond gallai effaith y pandemig diweddar ar ddiweithdra a newidiadau mewn arferion gweithio olygu fod y ffigwr hwn eisoes yn uwch.

Yr ateb hirdymor i dlodi tanwydd, ac un sydd hefyd yn cefnogi datgarboneiddio cartrefi, yw gwella'n ddramatig effeithlonrwydd ynni cartrefi tai tlawd o ran tanwydd.

Mae'n hanfodol bwysig fod y newid drosodd i economi carbon isel ddim yn cynyddu lefelau tlodi tanwydd, drwy gynyddu costau ynni. Rhaid i'r dull o weithredu fynd i'r afael â dau brif yrrwr tlodi tanwydd: incwm isel ac aneffeithlonrwydd ynni mewn tai.

Gellir cyflawni ystod o fanteision economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol ac iechyd drwy fynd i'r afael â'r agenda hyn ar y cyd.

Gallai cynnal rhaglen ôl-osod ar draws stoc dai Cymru arwain at arbedion biliau ynni o ryw £613 i bob cartref a ôl-osodwyd i EPC "A"⁹ gan fod o fantais arbennig i dai mewn bandiau EPC isel a thlodi tanwydd. Byddai'r arbedion hyn yn dileu tlodi tanwydd i bob pwrpas yng Nghymru ac yn gwneud cyfraniad sylweddol i leihau anghydraddoldebau economaidd.



© Coastal Housing



© Coastal Housing

Blaenoriaethau allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru:

1. Rhaid i ddatgarboneiddio cartrefi fod yn ymdrech ar y cyd, gyda Llywodraeth Cymru'n chwarae rôl arwain a chydlynu, gan ddod â phob sector ynghyd ar gyfer cenhadaeth gyfun.

Nid lle Llywodraeth Cymru'n unig yw ysgwyddo her cyllido datgarboneiddio. Os yw Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ddifrif am adferiad gwyrdd, a chyflawni'u hymrwymiaid newid hinsawdd eu hunain, rhaid iddynt gydweithio i ddefnyddio pob lifer ariannol sydd ar gael iddynt i ariannu'r her ôl-osod. Dylent weld y buddsoddiad hwn fel cefnogi isadeiledd hanfodol, yn yr un modd â buddsoddi mewn isadeiledd arall fel ffyrdd, rheilffyrdd a phŵer.

Yn yr un modd, bydd angen i gymdeithasau tai, awdurdodau lleol, a thros amser, gartrefi preifat, hefyd chwarae'u rhan yn yr ymdrech gyfun hon. Dylai pob un o'r sefydliadau hyn fod yn canolbwyntio ar arloesi ar y cyd a mesur risg, gan gydweithio a dysgu bob cam o'r daith.

Dylai Llywodraeth Cymru chwarae rôl arwain a chydlynu allweddol gyda chefnogaeth a chydweithio o gyfeiriad Llywodraeth y DU, awdurdodau lleol, cymdeithasau tai ynghyd ag addysg, hyfforddiant a sectorau preifat i sicrhau fod ymdrech unedig yn digwydd ar draws tai cymdeithasol, cartrefi mewn tlodi tanwydd a phobl yn y sectorau rhentu preifat a phreswylwyr-berchnogion.

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Arwain y blaen drwy osod ymrwymiaid a thargedau hirdymor clir ar gyfer stoc dai Cymru yn yr ail Gynllun Carbon Isel;
- Cydnabod yn llawn heriau rhyng-gysylltiedig datgarboneiddio cartrefi a thaclo tlodi tanwydd a myfyrio ar y rhain ar draws rhaglen newydd y Llywodraeth gan gynnwys cysylltu gweithredu polisi ar sgiliau, cyllid, economi seiliol ac iechyd.
- Blaenoriaethu buddsoddi yn y maes hwn a phwysleisio pwysigrwydd yr agenda hwn ar gyfer pobl Cymru, wrth drafod gyda Llywodraeth y DU am gyllid wedi'r UE, fel y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Dylai cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol:

- Ystyried sut allan nhw gael mynediad i gyllid preifat i ategu cyllid grant Llywodraeth ar gyfer datgarboneiddio'u stoc dai.
- Gweld gwariant a buddsoddiad Adnewyddu cyffredinol, Cynnal a chadw a Gwelliannau (RMI) ar fesurau datgarboneiddio fel rhywbeth sy'n gysylltiedig â chyfle i integreiddio ymhellach dros amser.
- Adeiladu ar ddulliau llwyddiannus o weithio dan y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, blaenoriaethu cydweithio a dysgu parhaus o ran y dulliau a weithredwyd i ddatgarboneiddio'u stoc dai.

Bydd gan Lywodraeth y DU rôl hanfodol mewn cefnogi buddsoddiad a rheoleiddio, a dylai awdurdodau lleol chwarae rhan fwy rhagweithiol o yrru datgarboneiddio cartrefi a lleihau tlddi tanwydd, yn enwedig o ran y Sector Rentu Breifat.

Mae 11 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru wedi cadw'u stoc dai eu hunain, ac mae 16 o'r 22 wedi datgan argyfwng hinsawdd, felly rhaid iddynt bellach ddangos sut y maen nhw'n blaenoriaethu datgarboneiddio cartref drwy gyfrwng dull ar sail ardal gan ddefnyddio pob lifer sydd ar gael iddynt. I gefnogi hyn dylai'u rôl gael ei chryfhau a'i hariannu'n gywir.

Tudalen y pecyn 30

2. Mae angen cael cynllun mwy hirdymor ar gyfer cyllido.

Mae angen clir i gael llwybr mwy hirdymor at ddatgarboneiddio cartrefi, os ydyn ni'n mynd i gwrdd â'r targedau datgarboneiddio, o leiaf tan 2030. Mae angen i hwn ddangos yr ymrwymiad ar y cyd sy'n bodoli rhwng Llywodraethau, cymdeithasau tai, awdurdodau lleol a chwaraewyr eraill i ddatblygu llwybr hirdymor i ddatgarboneiddio cartrefi, gan roi sicrwydd ac eglurder ynghylch trefniadau cyllido, unrhyw greu swyddi arfaethedig, llwybrau caffael a sgiliau sydd yn yr arfaeth.

Ond i ellir cyflawni'r cynllun buddsoddi hirdymor hwn ar ein pen ein hun nac o fewn mecanweithiau presennol. Bydd angen dulliau newydd ac arloesol o wasgu am ffynonellau eraill o gyllid a buddsoddiad, ac o bosib defnyddio gallu Banc Datblygu Cymru i ddatblygu Cwmni Gwasanaeth Ynni Cymru newydd i gydlynu a chefnogi cyllido datgarboneiddio yn y sector dai cymdeithasol (fel yr amlinellir yn adran 4).



Dylai Llywodraeth Cymru a'r DU:

- Ymrwymo i glustnodi cyllid buddsoddi mewn isadeiledd ychwanegol o £2.6bn a chlustnodi £1bn o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin sydd ei angen erbyn 2030 i daclo datgarboneiddio cartrefi incwm isel a mynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru. Byddai'r ffynonellau hyn yn gyfwerth â rhaglenni isadeiledd eraill (e.e. heolydd, rheilffyrdd, pŵer) gan gydnabod y manteision ariannol sylweddol a ddoi yn sgil rhaglen ôl-osod i Drysorlys y DU.
- Cynyddu'i defnydd o'i Chyfalaf Trafodion Ariannol ar gyfer ôl-osod a dylai Llywodraeth y DU hwyluso mynediad i'r farchnad Bond Sofran Gwyrdd newydd, i alluogi i ryw £6.3bn o fuddsoddiad preifat ddigwydd yn stoc dai Cymru erbyn 2030.
- Gweithio gydag Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) Llywodraeth y DU i symbylu marchnad Morgais Gwyrdd £100m y flwyddyn drwy fynnu datgeliad o ran pa mor ynni-ffeithlon yw tŷ ar y cam 'penderfyniad mewn egwyddor'.

Ar gyfer y sector tai cymdeithasol a chartrefi sy'n dioddef tlodi tanwydd, dylai Llywodraeth Cymru:

- Ddyblu cyllido tlodi tanwydd i £732m erbyn 2030 a'i gefnogi â grantiau ar gyfer pobl ar incwm isel a fyddai ar gael drwy gyllid isadeiledd cenedlaethol Llywodraeth y DU, gyda'r nod o ddileu tlodi tanwydd erbyn 2030.
- Ymrwymo i Grant Datgarboneiddio Tai Cymdeithasol newydd gwerth £108m y flwyddyn, yn amodol ar berfformiad mesuredig a lleihad mewn costau.
- Gweithio gyda Llywodraeth y DU i gynnig benthyciadau llog isel £158m y flwyddyn i ddarparwyr tai drwy gyfrwng 'Cwmni Gwasanaethu Ynni Cymru' (WESCO) drwy gyfrwng cytundebau Perfformiad Arbed Ynni.



**Ar gyfer y sector rhentu preifat /
preswlydd-berchennog (sy'n gallu
talu), dylai Llywodraeth Cymru:**

- Gweithio gydag Awdurdodau Lleol i dreialu'r mecanwaith Ynni Glân A Aseswyd Fesul Eiddo (PACE), drwy gyfrwng toll ar dreth y cyngor. Mae PACE yn ddull o gyllido mesurau ôl-osod sy'n cysylltu'r ddyled â'r eiddo yn hytrach na'r unigolyn, a'i sicrhau gan fesur treth eiddo.
- Gweithio gyda Banc Datblygu Cymru i dreialu modelau rhyddhau ecwiti a benthyciadau llog isel i landlordiaid ar gyfer cyllid ôl-osod.


Mae ein Map Trywydd yn amlinellu pa rai sy'n benderfyniadau cyllido a gweithredoedd polisi ar unwaith a'r rhai a ddylai ddigwydd dros y 10 mlynedd nesaf.

Cyllid Ynni Glân a Aseswyd Fesul Eiddo (PACE)

Mae PACE, a ddatblygwyd yn UDA, yn galluogi cymunedau a rhanbarthau dinesig i gyllido ôl-osod drwy gysylltu'r ddyled â'r eiddo yn hytrach na'r unigolyn. Mae ariannu PACE yn talu am holl gost yr ôl-osod a chysylltir ad-daliadau â'r eiddo ei hun. Mae'n cael ei warantu gan lien (math o warant) ar fil treth yr eiddo (h.y. treth y cyngor). Gall hyn ddileu'r rhaniad cymhellol rhwng landlordiaid a thenantiaid, neu bobl sy'n ceisio gwerthu'u cartref.


Mae ein modelu'n tybio y bydd buddsoddiad yn digwydd ar ffurf cromlin-S gam wrth gam dros y 2020au, gan ddod i uchafswm yn 2028,¹⁰ gan arwain at gyfanswm buddsoddiad cyfalaf o £14.75bn erbyn 2030.


Buddsoddiad Cyfalaf Blynnyddol (£m)



Ffig 1: Bydd angen cyfanswm cyllid Llywodraeth Cymru o £1.7bn hyd at 2030 - £1,080m drwy'r Grant Datgarboneiddio Tai Cymdeithasol newydd a £732 drwy'r rhaglen Tai Cynnes - gan gyrraedd pegwn rhwng 2026-2029.

Map Trywydd hyd at 2030





3. Rhaid cryfhau ein huchelgais i ddatgarboneiddio

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru'n annog y sector dai cymdeithasol i weithio tuag at y targedau datgarboneiddio a osodwyd yn adroddiad 'Tai Gwell, Cymru Well, Byd Gwell'. Ond mae 1.1 miliwn (neu 70%) o stoc dai Cymru'n dod dan y sectorau rhentu preifat neu breswlydd-berchennog sy'n amddifad o dargedau (neu dan amodau targed gwan iawn) ynghyd â'r lefelau addas o fuddsoddi neu gymhelliad ariannol.

O ystyried her enfawr datgarboneiddio cartrefi, a'r darpar fudd i gael rhaglen hirdymor ledled Cymru, mae angen i ni sicrhau fod hyn yn cael ei gyflawni'n gyflym ac yn llawn.

Os yw gweithredu ar y cyd ar draws sectorau'n mynd i gyflawni'r targedau hyn rhaid iddynt fod yn statudol ac yn cael eu gorfodi drwy gyfrwng safonau effeithlonrwydd ynni lleiafsymiol (MEES) ar draws yr holl stoc.

Mae ein gwaith yn dilyn argymhellion yn adroddiad 'Tai Gwell, Cymru Well, Byd Gwell' sy'n argymhell:

- Y dylai pob cartref yng Nghymru ddod i EPC "A" erbyn 2050. Dylid dod â'r targed hwn ymlaen ar gyfer pob tŷ cymdeithasol a phob cartref mewn tlogi tanwydd erbyn 2030.

- Rydym ni hefyd yn cynnig gosod targed dros dro o EPC "C" (neu gyfatebol) ar gyfer pob cartref yng Nghymru erbyn 2030. Fel lleiafrif, dylai pob cartref sy'n dlawd o ran tanwydd waeth beth fo'u daliad allu cwrdd ag EPC "C" erbyn 2030 er mwyn i Lywodraeth Cymru o leiaf gyrraedd yr un uchelgais a osodwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer cartrefi tlawd o ran tanwydd yn Lloegr.
- Yn ogystal, rydym ni'n cynnig gosod gwaharddiad ar wresogi tanwydd ffosil newydd ar gyfer pob cartref nid hwyrach na 2030.

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Benderfynu ar Safon Effeithlonrwydd Ynni Isafsymiol (MEES) neu darged datgarboneiddio uchelgeisiol ar gyfer y sector dai cymdeithasol, yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd gan y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, wedyn dylai baratoi amserlen i ddeddfu ar gyfer y targed hwn os oes angen.



© Ruth Edwards

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddeddfu ar gyfer Safon Effeithlonrwydd Ynni Isafsymiol (MEES) o darged datgarboneiddio EPC “C” neu gyfatebol ar gyfer pob cartref yn y sector rhentu preifat, a gwahardd gosod gwresogi tanwydd ffosil newydd ar gyfer pob cartref, nid hwyrach na 2030. Bydd hyn yn gofyn am orfodi gan awdurdodau lleol ar gyfer MEES arfaethedig neu gyfredol a ddylai gael eu cryfhau a'u cyllido'n gywir.
- Adeiladu ar waith y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio i ddatblygu model cost a 'phasbortau adnewyddu adeiladau' ar gyfer holl stoc dai Cymru. Bydd angen gwella eiddo, cyhyd â phosib, gan ystyried atebion presennol sydd ar gael a chostau tybiedig y gwaith. Bydd pasbortau adnewyddu adeiladau'n darparu dealltwriaeth fwy manwl o gostau perthnasol a maint y gwaith fydd ei angen ar gyfer mathau gwahanol o dai.

I gefnogi hyn dylai Llywodraeth y DU:

- Sicrhau fod holl rymoedd Rheoliadau Adeiladu'n cael eu datganoli'n llawn i Gymru;
- Torri TAW ar bob mesur sy'n gysylltiedig ag ôl-osod i 5%.

4. Mae maint yr her yn golygu fod angen sefydliadau newydd a bydd rolau newydd ar gyfer sefydliadau sy'n bodoli eisoes.

Wrth i faint yr heriau a'r cyfleoedd ar gyfer datgarboneiddio cartrefi ddod i'r amlwg, bydd angen creu rolau a dulliau gweithredu newydd.

Er enghraifft, awgrymwn roi rôl allweddol i Fanc Datblygu Cymru (DBW) wrth gydlynu cyllid ar gyfer y sectorau rhentu preifat a phreswylwyr-berchnogion, a datblygu Cwmni Gwasanaethu Ynni Cymru (WESCO) i reoli ariannu cytundebau perfformiad ynni ar gyfer y sector dai cymdeithasol.

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Sefydlu rôl ganolog ar gyfer Banc Datblygu Cymru (DBW) neu ffigur cydlynol arall i hwyluso benthycia tua 1bn/blwyddyn. Byddai angen paru hyn gyda gwasanaeth caffael ac ôl-osod addas, yn seiliedig ar ardaloedd, i gynnig 'siop-un-lle' i gartrefi.
- Archwilio sefydlu Cwmni Gwasanaethu Ynni Cymru (WESCO) i gydlynu a chefnogi datgarboneiddio yn y sector dai cymdeithasol. Byddai WESCO yn cyfuno benthyciadau a grantiau yn un cytundeb perfformio. Byddai'n cyllido gwelliannau i gartrefi gyda phob arbediad a warrantir yn cael ei ad-dalu ar y bil ynni, gan sicrhau cyllid-dyled ar fantolen ar ran cymdeithasau tai.

Beth yw Cwmni Gwasanaethu Ynni (ESCO)?

Maen nhw'n datblygu, cynllunio, adeiladu a threfnu cyllid ar gyfer prosiectau sy'n arbed ynni, yn lleihau costau ynni ac yn lleihau costau gweithredu a chynnal a chadw. Maen nhw'n gweithredu fel datblygwyr prosiectau ar gyfer ystod o fesurau arbed ynni ac yn ysgwyddo'r peryglon technegol a pherfformiad a gysylltir â phrosiect. Maen nhw'n wahanol i sefydliadau eraill sy'n cynnig gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn y ffaith eu bod yn defnyddio methodoleg gytundebu ar sail perfformiad. Mae hyn yn golygu bod y cyllid a gynhyrchir yn cael ei gysylltu'n uniongyrchol â'r arbedion cost ynni gwirioneddol.

Bydd angen i Lywodraeth Cymru hefyd fynd i'r afael â'r bwch sgiliau, o ran rhifau ac amrywiaeth, sy'n bodoli ar gyfer swyddi ôl-osod.

Ar hyn o bryd mae perygl y bydd Cymru'n colli manteision creu swyddi am nad oes digon o bobl sy'n gymwys i ymgymryd â gwaith ôl-osod. Mae angen mynd i'r afael



â hyn ar fyrder os ydyn ni'n mynd i wneud yn fawr o'r manteision lluosog a ddaw yn sgil buddsoddi mewn datgarboneiddio tai.

Dylai Llywodraeth Cymru:

- **Ddatblygu llif sgiliau ar gyfer gweithlu Ôl-osod yng Nghymru ar fyrder.**

Bydd buddsoddi mewn, a datblygu llwybr hirdymor, i ddatgarboneiddio holl gartrefi Cymru'n darparu ymrwymiad a sicrwydd hirdymor i alluogi datblygu llwybrau sgiliau a rhaglenni cyflogadwyedd sy'n cefnogi swyddi newydd a allu gael eu creu yn ein heconomi seiliol. Gan adeiladu ar y momentwm a buddsoddi yn y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, dylid cefnogi a mwyhau cynigion fel Academi Ôl-osod Cymru ledled Cymru.

- **Mabwysiadu agwedd Ôl-osod Plws – gan ehangu'r rhaglen ôl-osod i gefnogi ymwneud cymunedol ac adfywiad cymdogaeth.**

Dylai buddsoddi ar raddfa fawr yng nghartrefi Cymru edrych y tu hwnt i foeleri newydd ac i gyfeiriad atebion arloesol i wella cymunedau o fewn uchelgais ehangach Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Dylid ceisio cyfleoedd i ymestyn y rhaglenni datgarboneiddio drwy lasu cymunedau, creu lle i natur, tyfu bwyd lleol a diwylliant.

5. Dylai Cymru dargedu'r cartrefi gwaethaf yn gyntaf er mwyn gwneud y gorau o'r manteision o leihau tlodi tanwydd a mynd i'r afael â datgarboneiddio.

Mae llawer o gartrefi yng Nghymru sy'n dal mewn cyflwr sobor, ac mae miloedd o gartrefi'n byw mewn 'tlodi tanwydd difrifol' sy'n galw am dros 20% o'u hincwm i gynnal trefn wresogi foddhaol.

Er bod rhaglenni Safon Ansawdd Tai Cymru, Arbed a Nest wedi gwneud cynnydd sylweddol i'w leihau, erys 155,000 (12%) o gartrefi Cymru mewn tlodi tanwydd; mae 20% o'r Sector Rhent Preifat, 11% o breswylwyr-berchnogion a 9% o denantiaid tai cymdeithasol yn byw mewn tlodi tanwydd. Rhaid i unrhyw raglen ddatgarboneiddio dargedu'r tai hyn sy'n perfformio waethaf yn gyntaf fel mater o frys.

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Sicrhau fod eu llwybr hirdymor yn adlewyrchu'r dull cam wrth gam sydd ei angen i flaenoriaethu cyllid a chefnogaeth ar gyfer datgarboneiddio tai cymdeithasol a thai sydd mewn tlodi tanwydd yn gyntaf, gan ystyried pa reoleiddio pellach allai fod ei angen ar gyfer cartrefi yn y sectorau rhentu preifat a phreswylwyr-berchnogion.

Casgliad

Mae'r gwaith hwn wedi dangos y lefel o fuddsoddi mewn isadeiledd sydd ei angen i wella a datgarboneiddio (ôl-osod) cartrefi yng Nghymru – bydd hyn nid yn unig yn mynd i'r afael â'n hargyfwng hinsawdd ond bydd hefyd yn lleihau tlodi tanwydd, yn gwella deilliannau iechyd, yn creu miloedd o swyddi newydd ac yn cefnogi datblygu cadwyni cyflenwi lleol i gefnogi'r economi seiliol. Dylai rhaglen genedlaethol fod yn flaenoriaeth frys i'r Llywodraeth newydd er mwyn cefnogi adferiad gwyrdd, cydradd a theg.

Dangosodd ymchwil dwfn yn union faint o gyllid sydd ei angen hyd at 2030, darpar ffynonellau'r cyllid hwnnw ar gyfer sectorau gwahanol yn ogystal â modelau cyflawni. Dengys argymhellion ar gyfer Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn ogystal â ffigurau allweddol eraill y gellir cyflawni hyn gydag ymrwymiad hirdymor a gefnogir gan raglen hirdymor a ddylid ei rhoi ar waith ar fyrder.

Mae gan Gymru'r uchelgais, a'r weledigaeth, mae'n rhaid i'n ffocws nawr fod ar weithredu.

Cydnabyddiaethau



Datblygwyd y gwaith hwn gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru mewn partneriaeth â New Economics Foundation.

Mae'r adroddiad llawn a'r crynodeb technegol wedi'u drafftio gan Dr Donal Brown o'r Sustainable Design Collective, gyda chefnogaeth gan:

- Christian Jaccarini a Chaitanya Kumar (New Economics Foundation)
- Cathy Madge ac Eurgain Powell (Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru)

Diolch i'r holl randdeiliaid sydd wedi mynychu gweithdai ac wedi gwneud sylwadau ar ddrafftiau o'r gwaith hwn.



© Coastal Housing

Cyfeiriadau a throednodiadau

- [1] https://www.futuregenerations.wales/cy/resources_posts/rhaid-i-gyllideb-llywodraeth-cymru-nodi-newid-cyfeiriad-i-ailosod-ein-heconomi/
- [2] <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/adolygiad-annibynnol-ar-ddatgarboneiddio-cartrefi-yng-nghymru-adroddiad.pdf>
- [3] <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/decarbonising-welsh-homes-stage-2-report.pdf>
- [4] Yn seiliedig ar adolygiad o luosyddion GDP ar gyfer ôl-ffitio a ddatblygwyd gan Cambridge Econometrics a Phrifysgol Leeds.
- [5] Er mwyn cyflawni'r buddion hyn bydd angen rheoliadau safonau effeithlonrwydd ynni gofynnol (MEES) / Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) ar draws pob math deiliadaeth a lefel incwm.
- [6] Gan adeiladu ar ddata o Ysgol Pensaernïaeth Cymru, i gyflawni EPC A ar gyfer tai cymdeithasol a chartrefi tlawd tanwydd, ac EPC C ar gyfer pob cartref arall.
- [7] <https://www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/constructionindustry/datasets/outputintheconstructionindustrysubnationalandsubsector>
- [8] <https://llyw.cymru/amcangyfrifon-tlodi-tanwydd-ar-gyfer-cymru-prif-ganlyniadau-2018>
- [9] D. Brown, H. Wheatley, C. Kumar, J. Marshall, 'A Green Stimulus For Housing: The Macroeconomic Impacts of a UK Whole House Retrofit Programme', 2020.
www.neweconomics.org
- [10] Gan dybio y bydd rhaglenni yn y dyfodol ar gyfer datgarboneiddio'r stoc ehangach, gallem ddisgwyl i'r swyddi a'r swyddi barhau trwy'r 2030au.

Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Ymgynghoriad: Tlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd
Gan: National Energy Action (NEA) Cymru

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae National Energy Action (NEA) yn elusen tlodi tanwydd genedlaethol sy'n dymuno sicrhau y gall pawb yng Nghymru fforddio cadw eu cartrefi'n gynnes ac yn ddiogel.¹ Rydym yn croesawu'r cyfle hwn i helpu cyfeirio ymchwiliad y Pwyllgor i dlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd.
- 1.2 Mae hwn yn gyfnod hollbwysig. Amcangyfrifir yr oedd 155,000 o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd yng Nghymru yn 2018, gyda 145,000 o aelwydydd pellach mewn perygl o fod mewn tlodi tanwydd.² Ers hynny, rydym wedi dioddef pandemig COVID-19 sydd wedi gwaethygu anghydraddoldebau presennol ac yn awr rydym yn wynebu 'argyfwng prisiau ynni' sydd wedi gweld cynnydd digynsail mewn biliau ynni aelwydydd, rhywbeth a fydd yn parhau.
- 1.3 Erbyn mis Ebrill 2022, mae NEA yn amcangyfrif y bydd cost gwresogi'r cartref cyfartalog wedi dyblu dros y 18 mis diwethaf.³ Os yw'r cap ar brisiau'n codi £400-£600 pellach i gymryd yr ymchwydd mewn prisiau nwy cyfanwerthol i ystyriaeth, amcangyfrifwn y gallai'r nifer cyffredinol o aelwydydd mewn tlodi tanwydd gynyddu 50% neu fwy, o'i gymharu ag amcangyfrifon 2018. Bydd hyn yn gweld niferoedd annerbyniol o bobl yn wynebu dewisiadau enbydus a llawn cywilydd rhwng gwresogi, bwyta, neu dalu costau hanfodol eraill.
- 1.4 Mae angen i'r deng mlynedd nesaf fod yn ddegawd o gyflwyno. Yn ogystal â'r angen am ymateb yn y tymor byr i raddfa'r argyfwng,⁴ bydd angen iddo weld ffocws angenrheidiol ar ddatgarboneiddio gwres mewn cartrefi a darparu dull pontio teg, fforddiadwy a chyfiawn ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.
- 1.5 Er eu bod i'w croesawu, nid yw'r cynlluniau presennol yn ddigonol i fynd i'r afael â graddfa tlodi tanwydd yng Nghymru, heb sôn am ddatgarboneiddio cartrefi. Gyda Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar y fersiwn nesaf o'i Rhaglen Cartrefi Clyd, mae nawr yn foment hanfodol i ystyried pa mor bell y mae'r Rhaglen bresennol wedi mynd â ni, ac wrth symud ymlaen i fanteisio ar y cyfle i ddarparu cymorth a warentir ar gyfer y 'gwaethaf yn gyntaf' – h.y. y rhai ar yr incwm isaf yn y cartrefi lleiaf effeithlon – gwella bywydau aelwydydd mewn tlodi tanwydd wrth i ni ddatgarboneiddio ac uwchraddio effeithlonrwydd ynni eu cartrefi.

2. Pam mae effeithlonrwydd ynni domestig yn bwysig?

- 2.1 Mae ein cartrefi'n chwarae rôl hanfodol yn ein bywydau bob dydd. Cymru sydd â'r stoc adeiladau hynaf a lleiaf effeithlon o safbwynt thermol o'i chymharu â gwledydd eraill y DU a gwledydd gogledd Ewrop. Fel y disgwylir, mae gan anheddau hŷn yng Nghymru berfformiad ynni gwael a thymheredd dan do is o'i gymharu â'r rhai a godwyd yn fwy diweddar.⁵ Mae hyn yn effeithio'n anghymesur ar yr aelwydydd tlotach yng Nghymru; y mae llawer ohonynt wedi'u dal yn y cartrefi mwyaf aneffeithlon, er anfantais i'w hiechyd a'u llesiant.
- 2.2 Mae effeithlonrwydd ynni gwael yn sbardun allweddol i dlodi tanwydd ac mae mwy nag 80% o aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd yng Nghymru yn byw mewn cartrefi aneffeithlon⁶; yn uwch nag mewn unrhyw wlad arall yn y DU. Mae'r gorgyffwrdd hwn wedi gadael llawer o aelwydydd

tlotaf Cymru yn fwy agored i'r cynnydd anferth mewn prisiau ynni. Heb fynd i'r afael â gwastraff ynni diangen yn ein cartrefi, byddwn yn parhau i wastraffu miliynau o bunnoedd bob blwyddyn wrth i wres ddianc drwy waliau, toeon, lloriau a nenfydau heb eu hinswleiddio.

2.3 Mae effaith ddeilliannol tai o ansawdd gwael ar wasanaethau iechyd yn ddifrifol, gan gostio tua £95m i'r GIG yng Nghymru bob blwyddyn. I'r gwrthwyneb, mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif bod hyn yn arwain at £4 o fuddion iechyd am bob £1 a wariwyd ar wella cynhesrwydd mewn cartrefi sy'n agored i niwed, a gallai fod bron i 40% yn llai o dderbyniadau i'r ysbty ar gyfer rhai afiechydon sy'n gysylltiedig ag oerfel ymhlith y rhai y mae eu cartrefi wedi'u huwchraddio.⁷ Gallai'r arbediad blynyddol cyfartalog ar gyfer dod â chartref at lefel resymol o effeithlonrwydd ynni newid bywydau, gan dorri biliau dros £300 bob blwyddyn a thros £1,000 i'r aelwydydd tlotaf yn y cartrefi lleiaf effeithlon. Trwy ganolbwyntio ymdrechion cynnar ar y 'gwaethaf yn gyntaf' mae'r arbedion sylweddol hyn (sy'n cynyddu wrth i brisiau ynni godi) yn cronni dros gyfnod hwy, ar yr un pryd â chymryd camau cynnar i ostwng allyriadau carbon yn sylweddol, creu swyddi, a thwf economaidd.

2.4 I'r perwyl hwn, rydym yn croesawu'r cyfleoedd presennol i denantiaid tai cymdeithasol o dan y Rhaglen Ôl-osod wedi'i Optimeiddio (ORP) a'r fersiwn newydd o Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Fodd bynnag, rhentwyr preifat a pherchen-feddianwyr yw'r mwyafrif helaeth (87%) o'r boblogaeth sy'n wynebu tlodi tanwydd yng Nghymru.⁸ Y prawf litmws go iawn ar eu cyfer o ran symud ymlaen tuag at ein targedau tlodi tanwydd a newid yn yr hinsawdd fydd y fersiwn sydd ar ddod o Raglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru, a chredwn fod nifer o wersi y gellir eu dysgu o'r cynlluniau presennol.

3. Beth yw'r prif wersi a ddysgwyd o Raglen Cartrefi Clyd bresennol Llywodraeth Cymru a sut gall y gwersi hyn helpu i siapio'r fersiwn nesaf er mwyn sicrhau ei bod yn cefnogi'r rhai sydd mewn risg o dlodi tanwydd, neu sy'n byw ynddo, yn well?

3.1 Mae NEA wedi hyrwyddo a chefnogi'r Rhaglen Cartrefi Clyd (y Rhaglen) yn gyson). Hyd yma, mae Nyth ac Arbed wedi gwneud rhai gwelliannau sydd i'w croesawu'n frwd i fywydau aelwydydd mewn tlodi tanwydd yng Nghymru. Er hynny, yn seiliedig ar dystiolaeth gan randdeiliaid amrywiol – gan gynnwys yr hyn a ddarparwyd drwy ymchwiliad Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, Yr Amgylchedd a Materion Gwledig (CCERA) y Pumed Senedd i dlodi tanwydd yn 2019, tystiolaeth ddiweddar gan Archwilio Cymru, ac adborth anecdotaidd gan ein partneriaid – mae nifer o wersi y dylid ymdrin â nhw yn fersiwn nesaf y Rhaglen. Rydym yn grwpio'r rhain o dan chwe thema allweddol: sef, Graddfa, Targedu a Chymhwystra, Mesurau, Hygyrchedd, Mecanweithiau Cyflwyno, a Monitro ac Adrodd.

Graddfa

3.2 Ers lansio'r Rhaglen yn 2009, buddsoddwyd mwy na £394m, gan wella effeithlonrwydd ynni mwy na 67,100 o aelwydydd perchen-feddianwyr ac yn y sector rhentu preifat.⁹ Yn 2018, pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hamcangyfrifon tlodi tanwydd diweddaraf, credydwyd gwelliannau mewn effeithlonrwydd ynni gan iddynt ostwng lefelau amcangyfrifedig o dlodi tanwydd yng Nghymru, gan helpu i orbwyso prisiau tanwydd uwch ochr yn ochr â chynnydd mewn incwm.¹⁰

- 3.3 Fodd bynnag, cydnabuwyd yn gyffredinol ers hynny – gan gynnwys gan Lywodraeth Cymru – na fu buddsoddiad a graddfa'r Rhaglen yn ddigonol i ddiwallu anghenion neu gwrdd â thargedau.
- 3.4 Yn 2019, dywedodd Sefydliad Bevan "i ddileu tlodi tanwydd mewn deng mlynedd, mae angen i Lywodraeth Cymru gynorthwyo tua 33,000 o aelwydydd y flwyddyn i ddod allan o dlodi tanwydd. Rhwng 2010 a 2019 cafodd cyfanswm o 55,056 o aelwydydd – h.y. cyfwerth â 6,000 o aelwydydd y flwyddyn – welliannau effeithlonrwydd ynni cartref drwy Nyth ac Arbed... Nid yw hyn ond yn 20 y cant o'r nifer sydd ei angen."¹¹
- 3.5 Yn anffodus, mae lefel yr angen yn uwch o lawer erbyn hyn; yn anad dim gan fod y ddwy her o brisiau ynni tra uchel a gostyngiadau mewn incwm wedi gwaethygu'n ddifrifol. Os yw Llywodraeth Cymru am gyrraedd ei thargedau ar gyfer 2035, sef gostwng tlodi tanwydd yn sylweddol a dileu tlodi tanwydd difrifol cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol¹², mae'n rhaid iddi fod yn barod i ehangu graddfa ei Rhaglen Cartrefi Clyd yn y dyfodol a chynyddu buddsoddiad.
- 3.6 Bydd graddfa debygol tlodi tanwydd yn 2022 yn gofyn am godi nifer ehangach o lawer o aelwydydd allan o dlodi tanwydd bob blwyddyn o'i gymharu â'r hyn y mae'r Rhaglen bresennol wedi'i gyflawni. Hyd yn oed yn ôl amcangyfrifon 2018, dywedodd y cyn-Weinidog y bydd angen i fwy na dwbl y nifer o gartrefi elwa o fuddsoddiad.¹³
- 3.7 O ystyried hyn, mae NEA yn cefnogi cais diweddar Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i Lywodraeth Cymru am ddyblu cyllid tlodi tanwydd i £732m erbyn 2030, a'i ategu â grantiau ar gyfer pobl ar incwm isel a fyddai ar gael o gyllid seilwaith cenedlaethol Llywodraeth y DU.¹⁴
- 3.8 Galwodd NEA a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan gynnwys Cynghrair Tlodi Tanwydd Cymru, ar Lywodraeth Cymru hefyd i gyflwyno targedau tlodi tanwydd dros dro yn seiliedig ar effeithlonrwydd ynni cartrefi sydd mewn tlodi tanwydd. Yn anffodus, ni fabwysiadwyd y rhain nac unrhyw dargedau dros dro eraill pan gyflwynodd Llywodraeth Cymru ei *Chynllun Trechu Tlodi Tanwydd* yn ddiweddar. Mae hyn er gwaethaf dyletswydd gyfreithiol ar Lywodraeth Cymru i roi'r cerrig milltir allweddol hyn ar waith tuag at amcanion 2035 (yn unol â pharagraff 3.5 uchod).

Targedu a Chymhwystra

- 3.9 Mae NEA yn cefnogi bwriad y Rhaglen Cartrefi Clyd i helpu'r 'gwaethaf yn gyntaf' – h.y. y rhai ar yr incwm isaf, sy'n byw yn y cartrefi lleiaf effeithlon. Roeddem yn falch o weld yr egwyddor hon yn cael ei nodi'n echblyg yng Nghynllun Tlodi Tanwydd diweddaraf Llywodraeth Cymru a'i phwysleisio yng Nghynllun Cymru Sero Net.
- 3.10 I'r perwyl hwn, rydym yn croesawu ehangu meini prawf cymhwystra Nyth y tu hwnt i'r rhai sy'n cael budd-daliadau prawf modd yn unig, i dargedu cymorth hefyd at y rhai sydd ar incwm cymharol isel y maent yn dioddef gyda chyflyrau iechyd a waethygir gan oerfel o dan beilot Cyflyrau Iechyd y Cynllun Nyth. Yn unol â'r amcangyfrifon diweddaraf, nid oedd y mwyafrif (69%) o'r rhai mewn tlodi tanwydd yng Nghymru yn 2018 yn derbyn budd-daliadau prawf modd.¹⁵
- 3.11 Fodd bynnag, ceir barn gymysg am effaith Nyth ac Arbed ar leihau tlodi tanwydd ac mae cwestiynau difrifol wedi'u codi ynghylch pa mor effeithiol fu'r cynlluniau o ran targedu'r rhai sy'n byw mewn tlodi tanwydd y mae ganddynt yr angen mwyaf am gymorth.

- 3.12 Fel y nodwyd yn ymchwiliad Pwyllgor CCERA¹⁶, mae'r cynlluniau'n ddi-os wedi arwain at welliannau mewn effeithlonrwydd ynni cartrefi, a dylai hyn wneud aelwydydd yn llai tebygol o fod mewn tlodi tanwydd. Fodd bynnag, mae'n anodd bod yn sicr ynghylch union effaith y cynlluniau. Yn y gorffennol, ymddengys nad oedd y naill cynllun na'r llall yn gwirio'n rheolaidd a oedd aelwydydd mewn tlodi tanwydd cyn neu ar ôl yr ymyriad.¹⁷
- 3.13 Er bod Nyth bellach yn gwneud hynny, mae'r ffordd y mae wedi esblygu dros y blynyddoedd diwethaf yn awgrymu bod arian yn cael ei flaenoriaethu i bobl efallai nad ydynt mewn tlodi tanwydd.¹⁸ Gellid dadlau hefyd bod canfyddiadau diweddar Archwilio Cymru yn bwrw amheuaeth ar ddibynadwyedd rhai o'r canlyniadau a adroddwyd gan Nyth, gan gynnwys ffigurau sy'n cyfrif y rhai a gymerwyd allan o dlodi tanwydd, enillion effeithlonrwydd ynni 'cyn ac ar ôl' blaenorol, a thargedu.
- 3.14 Dros y blynyddoedd diwethaf, nid oedd y rhan fwyaf o aelwydydd a dderbyniodd becyn effeithlonrwydd ynni drwy Nyth yn byw mewn tlodi tanwydd: 57% yn 2018-19, 63.7% yn 2019-20, a 49.6% yn 2020-21.¹⁹ At hynny, nododd Archwilio Cymru y gellid dadlau bod y cynllun wedi symud o'i ddiben gwreiddiol o daclo tlodi tanwydd yn ei gyfanrwydd, gan fynd yn fwy o gynllun cyfnewid boeleri. Mae'r ffordd y penderfynodd Llywodraeth Cymru y dylai'r Rheolwr Cynllun asesu a dehongli effeithlonrwydd ynni cartref wedi israddio EPC yn artiffisial a galluogi mwy o bobl i fod yn gymwys am gymorth, gan gynnwys llawer nad oeddent o bosib yn byw mewn tlodi tanwydd. Golygodd hyn hefyd i enillion effeithlonrwydd ynni 'cyn ac ar ôl' a gostwng carbon o ganlyniad i'r ymyriad gael eu "gorbwysleisio'n sylweddol".²⁰
- 3.15 O ran Arbed, nid yw'n glir pa effaith y mae'r cynllun wedi'i chael o ran codi cartrefi allan o dlodi tanwydd, yn seiliedig ar wybodaeth a dadansoddiadau sydd ar gael yn gyhoeddus. Nid yw'n ymddangos bod adroddiad blynyddol diweddaraf Arbed yn nodi faint o aelwydydd a gefnogwyd oedd mewn tlodi tanwydd cyn neu ar ôl yr ymyriad.²¹
- 3.16 Yn fersiwn nesaf y Rhaglen, cred NEA ei fod yn hanfodol i Lywodraeth Cymru ffocysu'r cynlluniau ar godi aelwydydd allan o dlodi tanwydd, gan gefnogi'r 'gwaethaf yn gyntaf' – h.y. y rhai ar yr incwm isaf, yn y cartrefi lleiaf effeithlon. Dylid dylunio'r Rhaglen i gynnwys aelwydydd incwm isel sy'n byw mewn tlodi tanwydd, neu sydd mewn perygl o hynny, hyd yn oed os nad ydynt yn derbyn budd-daliadau prawf modd.
- 3.17 At hynny, bydd yn bwysig i fersiwn nesaf y rhaglen gydweddu â cham nesaf y Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO), sydd i fod mewn grym rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2026. Bwriedir i hyn hefyd ganolbwyntio ar wella'r cartrefi lleiaf effeithlon a feddiannir gan aelwydydd incwm isel ac agored i niwed (gan wneud gwelliannau ehangach a mwy cyflawn iddynt) ac mae NEA yn croesawu hyn.

Mesurau

- 3.18 Yn anffodus, mae esblygiad y Rhaglen Cartrefi Clyd hefyd yn golygu ei fod wedi methu fwyfwy â chyflawni ei hymagwedd 'tŷ cyfan' gwreiddiol. Cyfnewid boeleri fu'r mwyafrif helaeth o fesurau effeithlonrwydd ynni a osodwyd o dan Nyth. Yn 2019-20, roedd 93.8% o'r mesurau a osodwyd yn foeleri newydd a gosodiadau gwres canolog; dim ond 6.2% oedd inswleiddio safonol. Yn 2020-21, cododd y ffigur hwn i 94.4% ar gyfer gosod boeleri newydd a gosodiadau gwres canolog; gyda dim ond 5.6% ar gyfer inswleiddio safonol, gan gynnwys 5.5% inswleiddio loffydd a 0.1% atal drafftiau.²²

- 3.19 Yn amlwg, mae hyn ar draul uwchraddiadau pwrpasol eraill i ffabrig yr adeilad, gan gynnwys, er enghraifft, inswleiddio waliau ceudod neu solet, a fyddai'n darparu manteision hirdymor ac ateb parhaol o ran biliau is drwy fesurau effeithlonrwydd ynni sy'n gostwng y galw am ynni. mae hyn yn peri pryder i ni ac awgryma ymateb Rheolwr y Cynllun i ymchwiliad Pwyllgor CCERA fod mesurau inswleiddio yn cael eu hystyried yn "ychwanegol" ac "eilaid", sydd wedi'u cyfyngu gan y trothwyon a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.²³
- 3.20 Er bod set ehangach o fesurau wedi'u gosod o dan Arbed o'i gymharu â Nyth, mae'n ymddangos bod inswleiddio yn y lleiafrif o hyd. Rhwng mis Hydref 2018 a mis Mawrth 2021, gosododd Arbed fesurau mewn 3,108 o gartrefi, y derbyniodd 2,095 (67%) ohonynt system wresogi newydd, gyda 1,777 (57%) o gartrefi yn derbyn paneli solar a 415 (13%) yn derbyn inswleiddio i'r atig.²⁴
- 3.21 Er i'r Rhaglen gwmpasu pob ardal ddaearyddol yng Nghymru, mae'n bryder bod y diffyg mesurau ffabrig hefyd yn golygu i'r cynlluniau fethu ag ymdrin â'r heriau penodol sy'n gysylltiedig â thaclo tlodi tanwydd gwledig. Mae gan Gymru gyfran fawr o aelwydydd gwledig a chyfran fawr o gartrefi aneffeithlon â waliau solet, gyda niferoedd uwch mewn ardaloedd gwledig.
- 3.22 Mae gan Nyth ac Arbed gapiau gwario o ran y swm sy'n cael ei wario ar eiddo unigol. Er bod y capiau hyn wedi'u gosod yn uwch ar gyfer eiddo heb gyflenwad nwy, sy'n fwy cyffredin mewn ardaloedd gwledig, noda tystiolaeth anecdotaidd gan bartneriaid, gan gynnwys Cyngor ar Bopeth, fod aelwydydd anghenus mewn cartrefi heb gyflenwad nwy gyda waliau solet yn aml wedi methu â chael yr inswleiddio y mae ei angen ar eu heiddo oherwydd y costau cysylltiedig.
- 3.23 Yn 2019-20, dim ond 0.5% o'r mesurau a osodwyd drwy Nyth ar gyfer eiddo heb gyflenwad nwy oedd ar gyfer inswleiddio, gan awgrymu y gallai llai na 10 o aelwydydd heb gyflenwad nwy fod wedi derbyn inswleiddio waliau solet, er gwaetha'r ffaith mai 65,000 yw nifer yr aelwydydd â waliau solet heb eu hinswleiddio mewn tlodi tanwydd yn 2018 (h.y. 21%, y gyfradd uchaf o dlodi tanwydd ymhlith pob math o wal ac inswleiddio).²⁵ Un ffordd o sicrhau bod eiddo gwledig â waliau solet yn cael y sylw sydd ei angen arnynt drwy'r Rhaglen yw cael lleiafswm wal solet, yn debyg i'r hyn sydd gan gynllun ECO Prydain Fawr. Mae'n bosib y bydd angen capiau cost mwy hael ar gyfer grantiau hefyd. Er enghraifft, mae cynllun Grant Uwchraddio Cartref Lloegr (HUG) yn caniatáu grantiau o hyd at £25,000 i uwchraddio'r eiddo gwledig lleiaf effeithlon.
- 3.24 Yn ein barn ni, mae'n hanfodol bod fersiwn nesaf y Rhaglen yn mabwysiadu ymagwedd aml-fesur, 'ffabrig yn gyntaf', yn unol â nodau polisi trosgynnol y Cynllun Tlodi Tanwydd a Chynllun Sero Net Cymru. Bydd hyn yn golygu'n anochel y bydd angen codi trothwyon y cap ariannol i alluogi mesurau nad oeddent wedi'u cynnwys yn flaenorol neu eu gosod yn aml.
- 3.25 Fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor CCERA blaenorol, dylai'r fersiwn nesaf hefyd gynnwys rhaglen gymorth wedi'i theilwra gyda'r nod o ymdrin â'r heriau penodol a wynebir mewn ardaloedd gwledig, gyda lefelau priodol o gyllid sy'n cymryd y mesurau mwy cymhleth a chostus y mae eu hangen i ymdrin â thlodi tanwydd gwledig i ystyriaeth.²⁶

Hygyrchedd

- 3.26 Mae hefyd yn hanfodol bod y Rhaglen yn y dyfodol yn hygyrch i bawb sydd angen ei chefnogaeth.

3.27 Bydd hyn yn golygu sicrhau bod mesurau'n cael eu cyllido'n llawn ac na fyddant yn gofyn am unrhyw gyfraniadau ariannol gan aelwydydd mewn tloedi tanwydd. Yn unol â'r argymhelliad, dylai'r Rhaglen hefyd dalu costau gwaith ategol a galluogol sydd fel arall wedi atal aelwydydd rhag derbyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni fel mater o drefn hyd yma²⁷. Dylai'r rhain gynnwys:

- Adnewyddu'r gosodiad trydanol – Er mwyn gwneud newidiadau i gartref, weithiau mae'n rhaid adnewyddu'r gosodiad trydanol am resymau diogelwch. Gall hyn gostio miloedd o bunnoedd.
- Gwasanaethu a chynnal a chadw – Nid yw'r cyllid grant a ddarperir drwy lawer o gynlluniau sydd ar gael yn talu am gostau gwasanaethu a chynnal a chadw blynyddol. Os na all yr aelwyd dalu'r costau hyn, mae mwy o risg y bydd problemau'n datblygu gyda'r system wresogi.
- Uwchraddio'r rhwydwaith trydan – Mewn rhai achosion, pan fydd deiliad tŷ yn penderfynu gosod pwmp gwres fel eu prif ffynhonnell wresogi, efallai na fydd eu cysylltiad â'r grid trydan yn ddigonol i gefnogi'r fath offer. Mae NEA yn ymwybodol o rai achlysuron lle mae'r rhwydwaith wedi mynnu i'r aelwyd gyfrannu'n ariannol tuag at gost y gwaith uwchraddio, a all fod yn afresymol, cyn iddo ddigwydd.
- Ailaddurno a gwaith paentio. Bydd rhai gosodiadau'n golygu y bydd angen ailaddurno cartref i'w adfer i'w gyflwr blaenorol.

